OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2019 Rhif 275 (Cy. 64)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Y Drenewydd, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2019* |
| *Yn dod i rym* | *15 Chwefror 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A483 a'r A489, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Y Drenewydd, Powys) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 40 mya) 2019 a daw i rym ar 15 Chwefror 2019.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw'r darnau perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a Chefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 12 Chwefror 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 30 mya

Y darnau hynny o Gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'u cyffordd â Chylchfan Ffordd Llanidloes am bellter o 19 o fetrau i gyfeiriad y gorllewin a 21 o fetrau i gyfeiriad y de-ddwyrain.

Y darn o Gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Dolfor am bellter o 25 o fetrau i gyfeiriad y gorllewin.

Y darnau hynny o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'u cyffordd â Chylchfan Ffordd Dolfor am bellter o 31 o fetrau i gyfeiriad y de a 17 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain.

Y darnau hynny o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'u cyffordd â Chylchfan Kerry Road am bellter o 29 o fetrau i gyfeiriad y gorllewin a 30 o fetrau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain.

Y darnau hynny o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'u cyffordd â Chylchfan Pool Road am bellter o 24 o fetrau i gyfeiriad y gorllewin a 25 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn o Gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o bwynt 19 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Llanidloes am bellter o 456 o fetrau i gyfeiriad y gorllewin.

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 31 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Dolfor am bellter o 402 o fetrau i gyfeiriad y de.

Y darn o Gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pool Road am bellter o 280 o fetrau i gyfeiriad y dwyrain.